

Cronfa Gwaddol Cymuned Powys

Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol



Mae Cronfa Gwaddol Cymuned Powys yn cynnwys tri rhaglen grant, sy'n cynnig cymorth i grwpiau ym Mhowys at ddibenion addysg, hamdden a hamdden.

Mae manylion y rhaglenni isod.

Mae gan bob rhaglen feini prawf ac ardal benodol ar gyfer ei buddiant. Does DIM rhaid i chi ymgeisio ar gyfer cynllun penodol; bydd ein tîm grantiau'n cyflwyno eich cais i'r gronfa fwyaf perthnasol.

Cronfa Goffa Stanley Bligh

Nod y gronfa hon yw cefnogi astudiaethau addysgol mewn coedwigaeth, amaethyddiaeth a phynciau technegol a galwedigaethol yn y celfyddydau neu'r gwyddorau.

Grantiau ar gael

Mae grantiau o £2,000 i grwpiau ar gael. Mae enghreifftiau o'r costau a gefnogir yn y gorffennol yn cynnwys:

- ffioedd cyrsiau (ble nad oes cefnogaeth arall ar gael)
- prynu offer
- defnyddiau addysgol
- teithio (os yw'n golygu budd addysgol arwyddocaol i unigolyn / grŵp a / neu gymuned)
- costau rhedeg prosiect addysg gymunedol penodol

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r Gronfa yn cefnogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ym Mhowys. Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau sy'n gweithio gyda thrigolion Sir Frycheiniog neu'r rhai sydd wedi mynychu Ysgol Uwchradd Brycheiniog am o leiaf 2 flynedd.

Hen Ysgol Ramadeg y Merched, Cronfa Aberhonddu

Nod y gronfa hon yw cefnogi addysg trigolion hen Sir Frycheiniog ym Mhowys.

Grantiau ar gael

Mae grantiau o £2,000 i grwpiau ar gael. Mae enghreifftiau o'r costau a gefnogir yn y gorffennol yn cynnwys:

- ffioedd cyrsiau (ble nad oes cefnogaeth arall ar gael)
- prynu offer
- defnyddiau addysgol
- teithio (os yw'n golygu budd addysgol arwyddocaol i unigolyn / grŵp a / neu gymuned)

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r Gronfa'n cefnogi unigolion a sefydliadau cymunedol / gwirfoddol yn Sir Frycheiniog.

Cronfa Ymddiriedolaeth Dosbarth Sir Drefaldwyn

Mae'r gronfa hon yn anelu at ddarparu adnoddau ar gyfer hamddena a hamdden er budd trigolion Sir Drefaldwyn gyda'r nod o wella amodau byw y trigolion hynny.

Grantiau ar gael

Mae grantiau ar gael hyd at £2,000 i grwpiau. Mae enghreifftiau o gostau a gefnogwyd o'r blaen yn cynnwys. Yn nodweddiadol, dyfarnwyd grantiau:

- prynu offer neu ddefnyddiau
- mân waith cyfalaf
- offer neu newidiadau i adeiladau

Mae enghreifftiau o fuddiolwyr blaenorol yn cynnwys:

- grwpiau plant / ieuenctid
- canolfannau cymunedol a neuaddau pentref
- grwpiau diwylliannol / celfyddydau
- clybiau chwaraeon
- grwpiau hamddena / hamdden

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Ystyrir ceisiadau oddi wrth grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau lleol yn Sir Drefaldwyn.

Hen Ysgol Ramadeg y Merched, Cronfa Aberhonddu

Nod y gronfa hon yw cefnogi addysg trigolion hen Sir Frycheiniog ym Mhowys.

Grantiau ar gael

Mae grantiau o £500 – £2000 i grwpiau ar gael. Mae enghreifftiau o'r costau a gefnogir yn y gorffennol yn cynnwys:

- ffioedd cyrsiau (ble nad oes cefnogaeth arall ar gael)
- prynu offer
- defnyddiau addysgol
- teithio (os yw'n golygu budd addysgol arwyddocaol i unigolyn / grŵp a / neu gymuned)

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r Gronfa'n cefnogi unigolion a sefydliadau cymunedol / gwirfoddol yn Sir Frycheiniog.

Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein.
- Llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.
- Os ydych chi'n Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) sydd wedi'i gofrestru yn ystod y 18 mis diwethaf, nid ydych yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn. Os byddwch yn gwneud cais o fewn eich 18 mis cyntaf o fasnachu, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Gymunedol Powys bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blyneddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £2,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blyneddol fod o leiaf £4,000.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

